

# Brîff Gwarchodwr Plant:

**Beth yw gwarchodwr plant?**

Gwarchodwr plant yw rhywun sy'n gofalu am blant nad ydynt yn perthyn iddo/iddi, am fwy na dwy awr y dydd, am dâl neu wobr, yng nghartref y gwarchodwr plant ei hun. Mae'n anghyfreithlon i chi gyflawni unrhyw un o'r rhain os nad ydych wedi cofrestru.

Nid oes raid i chi gofrestru fel gwarchodwr plant os ydych yn rhiant, perthynas agos, gofalwyr maeth (ar gyfer y plant y maent yn eu maethu), os ydych yn gofalu am y plentyn yng nghartref y plentyn, nanis a chyfeillion sy'n gofalu am blant heb gael unrhyw dâl. Rhaid i warchodwr plant fod wedi ei gofrestru a'i arolygu.

**Manteision bod yn warchodwr plant:**

Mae manteision bod yn ofalwr plant yn cynnwys dewis eich oriau hyblyg eich hun, gweithio o'ch cartref eich hun, bod yn fos arnoch eich hun a hybu eich datblygiad proffesiynol

**Am bwy y gallwch ofalu?**

Gall gwarchodwr plant cofrestredig ofalu am 6 o blant dan 8 mlwydd oed (ar unrhyw amser). O'r 6 yma, ni all mwy na 3 o'r plant fod dan oedran ysgol amser llawn. O'r 3 yma, ni all mwy na 2 o'r plant fod dan 18 mis oed. Gall y niferoedd yma fod yn wahanol, gan ddibynnu ar faint y lleoliad lle'r ydych yn gweithredu.

Rhaid i'r niferoedd yma gynnwys eich plant chi eich hun.

Nid oes raid i chi fod wedi cofrestru i ofalu am blant dros 8 oed. Dylech ddefnyddio synnwyr cyffredin wrth bennu faint o blant dros 8 oed y gallwch ofalu amdanynt.

**Rhedeg eich busnes gwarchod plant:**

Cyn i chi ddechrau'r broses gwarchod plant, bydd angen i chi ddechrau meddwl am y canlynol:

- Pa ddyddiau ac oriau fyddwch chi'n gweithio
- Faint fyddwch chi'n ei godi yr awr
- A fyddwch yn casglu plant ac yn eu cludo i ysgolion lleol a lleoliadau gofal plant
- A fyddwch yn derbyn plant sydd ag anghenion ychwanegol?
- Sut fydd eich partner a'ch plant yn ymdopi gyda phlant eraill yn eich cartref? A fydd plant dan eich gofal yn ddiogel o gwmpas eich anifeiliaid anwes? Ble fyddwch chi'n cadw eich teganau, offer ac adnoddau?

monmouthshire
sir fynwy

**Gofal plant presennol yn eich ardal:**

Mae'n bwysig meddwl pa wasanaethau gofal plant eraill sydd ar gael yn eich ardal ac ystyried a oes angen rhagor? (Chwiliwch yn www.monfis.org.uk am fanylion am yr holl warchodwyr plant, gofal dydd, gofal ar ôl ysgol ac ati sydd ar gael yn Sir Fynwy).

Ystyriwch y bylchau o ran gofal plant yn eich ardal a meddwl beth allwch chi ei gynnig sy'n wahanol i ddarparwyr gofal plant eraill (gofal dros nos, gofal ar y penwythnos, gostyngiadau i frodyr a chwiorydd ac ati...)? (Bydd Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant Sir Fynwy yn http://www.monfis.org.uk/childcare-sufficiency-assessment yn rhoi'r wybodaeth hon i chi.

**Y Safonau Gofal Plant Cenedlaethol Gofynnol:**

Rhaid i'r holl warchodwyr plant cofrestredig gadw at y Safonau Cenedlaethol gofynnol. Gellir lawrlwytho hwn o: www.monfis.org.uk/download-document Mae'n cynnwys manylion cynllunio, cofnodion, gweithio gyda rhieni, llesiant, bwyd a diod, gweithdrefnau ariannol, sicrhau ansawdd, cwynion, diogelu plant, offer, diogelwch a mwy.

**Pwy ddylai gael ei hysbysu:**

Os ydych yn byw mewn llety ar rent, mae'n ofynnol i chi gael caniatâd ysgrifenedig gan eich landlord i ddangos eu bod yn fodlon i chi ddefnyddio eich cartref fel busnes gwarchod plant.

Os ydych yn bwriadu defnyddio car i godi plant sy'n cael eu gwarchod, eu gollwng yn yr ysgol neu ar gyfer gweithgareddau, rhaid i chi hysbysu eich cwmni yswiriant car gan y bydd angen i chi gynnwys 'defnydd busnes'.

Bydd angen i chi wirio a yw eich yswiriant cartref yn cynnwys defnydd busnes.

Efallai y byddwch yn dymuno cysylltu â'ch Gwasanaeth Diogelwch Tân am wiriad am ddim o'r offer diogelwch yn eich cartref.

Byddai Iechyd yr Amgylchedd Sir Fynwy hefyd yn hoffi cael eu hysbysu eich bod wedi cofrestru. Gallant roi gwybodaeth ddefnyddiol i chi am baratoi bwyd, iechyd, glendid, tymheredd oergell ac ati. Gellir cysylltu â hwy ar 01633 644609.

**Pethau eraill i'w hystyried:**

Fel gwarchodwr plant, byddwch yn cael eich ystyried yn hunangyflogedig. Rhaid i chi gofrestru yn hunangyflogedig a llenwi gwaith papur CThEM a ffurflenni treth yn flynyddol. Efallai y gall CThEM eich helpu i lenwi'r ffurflenni. Bydd yn ofynnol i chi dalu Yswiriant Gwladol hefyd.

Ystyriwch gynllunio – patrymau ar gyfer plant o wahanol oedrannau, datblygiad plant, eu hymddygiad, prydau ac ati. Mae eich templedi cynllunio a'ch canllawiau yn cael eu cynnwys yn eich pecyn cychwynnol wrth gofrestru.

Rhaid i weithdrefnau diogelwch fod yn eu lle, gan gynnwys larymau mwg, gwarchodwyr tân ac ati. Gallwch hawlio hyd at £100 gan Flynyddoedd Cynnar Sir Fynwy am offer diogelwch.

**Y Broses Gwarchod Plant:**

I ddod yn warchodwr plant, rhaid i chi:

**Gwblhau Cwrs Gwarchod Plant CYPOP5**
Cwrs CYPOP5 yw'r cymhwyster safonol y mae'n rhaid i bob gwarchodwr plant ei gwblhau i gofrestru fel gwarchodwr plant, pa bynnag gymwysterau gofal plant eraill sydd gennych.
Mae'r cwrs CYPOP 5 yn trafod pethau fel sefydlu gwasanaeth gwarchod plant yn y cartref, sefydlu amgylchedd diogel ac iach, gweithio gyda rhieni, datblygu patrymau, chwarae a gweithgareddau i gefnogi cydraddoldeb a chynhwysiant, diogelu plant a chefnogi ymddygiad cadarnhaol.

O fis Medi 2019 roedd newidiadau i'r unedau cymhwyster sy'n ofynnol i gofrestru fel gwarchodwr plant neu i ddod yn nani a gymeradwywyd yng Nghymru. Ni fydd y CYPOP5 diweddar yn cael ei gyflawni a bydd yn cael ei gyfnewid ag unedau o'r cymhwyster Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant newydd. Bydd y rhai sydd am ddod yn warchodwr plant cofrestredig yng Nghymru yn gorfod cymhwyso yn yr uned Cyflwyniad i ofal plant yn y cartref a'r uned Paratoi ar gyfer ymarfer fel gwarchodwr plant. Dim ond yr uned Cyflwyniad i ofal plant yn y cartref fydd yn rhaid i'r rhai sydd am ddod yn nani a gymeradwywyd yng Nghymru ei chwblhau.

- Mae'r pecyn hyfforddiant cyn cofrestru Gwarchod Plant yn cynnwys Uned 326 Cyflwyniad i ofal plant yn y cartref, ac Uned 327 Paratoi ar gyfer ymarfer gwarchod plant.

Ar gyfer y llwybr dysgu cymysg, mae'r addysg yn cael ei chyflwyno trwy gyfuniad o ddysgu wyneb yn wyneb gyda'r dysgwr hefyd yn dysgu ar-lein dan ei gyfarwyddyd ei hun ar gyfer elfennau o'r cwrs. Bydd y dysgwr yn cael cefnogaeth gan diwtor ac asesydd yn ystod y cwrs.
Ar gyfer y llwybr dysgu ar-lein, bydd y dysgwr yn dysgu ar-lein dan ei gyfarwyddyd ei hun ar gyfer holl elfennau'r cwrs. Bydd y dysgwr yn cael cefnogaeth gan ei asesydd yn unig yn ystod y cwrs.

**Pecyn hyfforddi cyn-cofrestru gwarchod plant**
**Dewis 1: Llwybr dysgu cymysg**
**Darparu:** 2 ddiwrnod yn y dosbarth gyda hyfforddiant ar-lein ac astudio dan gyfarwyddyd y dysgwr ei hun
**Asesu:** Bydd dysgwyr yn cael eu hasesu trwy:
Uned 326: cwblhau portffolio o dystiolaeth ar ffurf llyfr gwaith.
Uned 327: Trafodaethau proffesiynol yn seiliedig ar bortffolio o waith i gefnogi cofrestru fel gwarchodwr plant yng Nghymru
**Cost:** £325 heb TAW (£390 yn cynnwys TAW) am bob dysgwr (lleiafswm o 10 dysgwr i bob cwrs)

**Dewis 2: Llwybr dysgu ar-lein**
**Darparu:** astudio a hyfforddiant ar-lein wedi ei gyfarwyddo gan yr unigolyn
**Asesu:** Bydd dysgwyr yn cael eu hasesu trwy:
Uned 326: cwblhau portffolio o dystiolaeth ar ffurf llyfr gwaith.
Uned 327: Trafodaethau proffesiynol yn seiliedig ar bortffolio o waith i gefnogi cofrestru fel gwarchodwr plant yng Nghymru
**Cost:** £300 heb TAW (£360 gan gynnwys TAW) i bob dysgwr Nid oes cyfyngiad amser i gwblhau'r cwrs.

Mae'r cwrs yn costio £390 neu £360 i'w gwblhau a rhaid i'r unigolyn dalu hynny. **Bydd Blynyddoedd Cynnar Sir Fynwy yn gallu eich ad-dalu am ran o'r cwrs pan fyddwch yn cofrestru fel gwarchodwr plant.**

Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY) yw'r sefydliad sy'n darparu'r cwrs hwn. Gallwch gysylltu â nhw ar 0845 880 1299 neu paceycymru@pacey.org.uk

**Cwblhau Tystysgrif Cymorth Cyntaf, Diogelwch Bwyd a Diogelu:**
Gallwch gael manylion am ofynion y cyrsiau hyn a rhestr o ddarparwyr hyfforddiant yn https://www.monfis.org.uk/cy/hyfforddiant-ar-gyfer-darparwyr-gofal-plant

**Cael Cyfeirnod Meddyg Teulu:**
Mae'n ofynnol i chi gael cyfeirnod 'addas i waith' gan eich meddyg teulu lleol. Efallai y bydd tâl bychan am hyn.

**Llenwi Ffurflen Gais Cofrestru Gwarchodwyr Plant:**

Mae'n ofynnol i chi gofrestru fel gwarchodwr plant gydag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) i lawrlwytho'r ffurflen gais, ewch i http://wales.gov.uk/cssiwsubsite/newcssiw/aboutus/providingsocialcare/cmreg/infoandguide/?lang=cy

Llenwch y ffurflen mor llawn a chywir ag sy'n bosibl. Gall unrhyw fylchau arwain at weld y ffurflen yn cael ei dychwelyd atoch sy'n golygu y byddwch yn mynd i ddiwedd y ciw prosesu. Mae hyn yn cynnwys unrhyw fylchau yn eich dyddiadau cyflogaeth. Cynhwyswch unrhyw gyfnodau o amser pan nad oeddech yn gyflogedig.

**Cwblhewch wiriad DBS (CRB gynt):**
Bydd angen i unrhyw oedolyn o'ch aelwyd sydd dros 16 oed gael Gwiriad DBS. Bydd hyn yn wir os oes gennych wiriadau DBS am rolau eraill neu beidio. Bydd AGC yn talu am gostau'r gwiriadau hyn. Gallwch ofyn am ffurflen DBS gan AGC ar 0300 7900 126.

Bydd angen i chi drefnu amser addas gyda AGC i gyflwyno eich ffurflen gais a'ch gwiriadau. Mae gofyn mynd â'r ffurflenni DBS yn bersonol i Swyddfa Ranbarthol AGC ym Merthyr Tudful i gael eu cymeradwyo. Ni allwch ddefnyddio unigolyn dynodedig na'r cyfleuster yn y swyddfa bost. Efallai y byddwch am ystyried mynd â'ch ffurflenni DBS, dogfennau adnabod, ffurflen gais gwarchodwr plant a'r dogfennau i gefnogi hynny i AGC yr un pryd. Gall hyn gyflymu'r broses gofrestru.

**Arolygiad AGC**
Ar ôl i'ch cais gael ei gymeradwyo, bydd AGC yn trefnu i ymweld â'ch cartref am arolygiad cyn cofrestru. Bwriad hyn fydd gwirio bod eich cartref a'ch gardd yn addas ar gyfer busnes gofal plant. Bydd AGC yn gwirio bod yr holl weithdrefnau diogelwch yn eu lle a'ch bod wedi ystyried yr holl agweddau cynllunio ar y broses. Ar ôl cofrestru, bydd AGC yn arolygu eich cartref bob dwy flynedd ac yn cynhyrchu adroddiad o'u canfyddiadau. Gellir gweld enghreifftiau o adroddiadau AGC yn www.monfis.org.uk

**Ymgeisio am Becyn Cychwynnol Ansawdd PACEY:**
Mae pecyn cychwynnol ansawdd ar gael pan fyddwch ar fin cwblhau cofrestru fel gwarchodwr plant cofrestredig. Mae'r pecyn cychwynnol yn cynnwys eich yswiriant atebolrwydd cyhoeddus am y flwyddyn gyntaf, aelodaeth o PACEY am flwyddyn, llyfr arian a chofrestr presenoldeb, llyfr damweiniau/ digwyddiadau, cysylltiadau gwarchod plant a ffurflenni cofnodion plant a blanced dân. Bydd Blynyddoedd Cynnar Sir Fynwy yn talu holl gostau'r pecyn hwn.

Cysylltwch â Blynyddoedd Cynnar Sir Fynwy trwy clairemorgan2@monmouthshire.gov.uk am ffurflen gais am becyn ansawdd cychwynnol.

**Grant Offer Diogelwch £100:**
Mae Blynyddoedd Cynnar Sir Fynwy hefyd yn gallu rhoi grant offer diogelwch i chi wrth i chi gofrestru. Byddai hwn yn cynnwys giatiau ar gyfer y grisiau, gwarchodwr tân, seddi car ac ati. Gall unrhyw bryniannau a wnaed yn ystod y broses gael eu had-dalu (hyd at £100) wrth gofrestru. Anfonwch dderbynebau at clairemorgan2@monmouthshire.gov.uk.

**Cefnogaeth Cyn-gofrestru:**

Gyda chefnogaeth Blynyddoedd Cynnar Sir Fynwy, mae PACEY Cymru yn gallu cynnig gwasanaeth cefnogaeth diduedd dros y ffôn ac e-bost i'r holl warchodwyr plant yn Sir Fynwy. Os hoffech gael unrhyw help neu gyngor o ran llunio eich polisïau, gweithdrefnau a cheisiadau, cysylltwch â Shelley Rees yn shelley.rees@pacey.org.uk neu ffoniwch 0845 8801299.

**Derbyn eich Rhif Cofrestru:**

Ar ôl yr archwiliad o'ch cartref a derbyn eich pecyn dechreuol, byddwch yn derbyn eich rhif cofrestru a byddwch yn swyddogol yn warchodwr plant cofrestredig. Rydych yn awr yn gallu gwarchod unrhyw blentyn sydd gennych ar eich rhestr aros neu hysbysebu eich gwasanaeth gwarchod plant.

**Hysbysu Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Sir Fynwy:**

Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Sir Fynwy (MonFIS) yw'r unig wasanaeth sy'n cadw rhestr lawn o'r holl ofal plant cofrestredig trwy'r sir. Mae AGC yn hysbysu MonFIS cyn gynted ag y bydd darparwr yn cofrestru. Cysylltwch â MonFIS ar 01633 644527 neu trwy anfon e-bost childcare@monmouthshire.gov.uk i gofrestru eich manylion. Bydd eich gwasanaeth wedyn yn cael ei hyrwyddo, ochr yn ochr â phob darparwr gofal plant arall ar www.monfis.org.uk ac mewn canllaw gofal plant a anfonir i rieni pan fyddant yn gofyn amdano. Gofynnir i chi roi'r wybodaeth hon i MonFIS yn flynyddol. Mae angen gwybodaeth hefyd ar gyfer yr Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru.

**Cofrestru gydag Adran Gofrestru Rheolwr Data Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth**

Mae Deddf Diogelu Data 1998 yn ei gwneud yn ofynnol i bob busnes hysbysu'r Swyddfa Comisiynydd Gwybodaeth os ydych yn prosesu gwybodaeth bersonol yn electroneg ar gyfer darparu gofal plant. Mae hyn yn cynnwys enwau, cyfeiriadau, cyflyrau meddygol a thynnu lluniau o'r plant dan eich gofal gan ddefnyddio camera digidol. Mae peidio â hysbysu Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn drosedd ac yn torri Deddf Diogelu Data 1998). Gallwch gofrestru yn http://ico.org.uk/what_we_cover/register_of_data_controllers am gost blynyddol o £40.

**Manylion Cyswllt Defnyddiol:**

**Gwasanaeth Blynyddoedd Cynnar a Gwybodaeth i Deuluoedd Sir Fynwy**
01633 644527 / 01633 644461
Rachel Baynham
E-bost: rachelbaynham@monmouthshire.gov.uk neu childcare@monmouthshire.gov.uk
Gwefan: www.monfis.org.uk
Cysylltwch i gael: Gwybodaeth am ofal plant lleol, Cais am Becyn Cychwynnol Ansawdd, Grant ad-dalu offer diogelwch, ad-dalu CYPOP5 wrth gofrestru, hyfforddiant diogelu

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**
Ffôn: 0300 7900 126
Gwefan: https://arolygiaethgofal.cymru/
Cysylltwch i gael: Ffurflen gais gofal plant, ffurflen gais DBS, cwblhau ffurflen gais, ymweliad cartref, arolygiadau, gweithdrefnau diogelwch

**Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)**
Ffôn: 0845 880 1299
Gwefan: www.pacey.org.uk
Cysylltwch i gael: Cofrestru ar CYPOP5 a manylion mewngofnodi, cefnogaeth ychwanegol i ofal plant